| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **16 Gorffennaf 2015** |
| TEITL: | **YMATEB I BWYSAU ARIANNOL SYLWEDDOL** |
| PWRPAS: | **Ystyried Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| AWDUR/SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn Ebrill 2015, cyhoeddwyd adroddiad cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn datgan fod "cynghorau yng Nghymru wedi ymateb yn dda i bwysau ariannol sylweddol, [ond fod] angen iddynt wella eu prosesau rheoli a chynllunio ariannol er mwyn ateb yr heriau ariannol cynyddol sydd i ddod". Mae'r adroddiad llawn ar wefan SAC -

http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/cydnerthedd-ariannol-cynghorau-yng-nghymru

1.2 Mae rhai Trysoryddion yng Nghymru yn ystyried fod yr adroddiad SAC yma braidd yn arwynebol, gyda thystiolaeth annigonol i gefnogi rhai casgliadau, a diffyg cyfeiriad at arfer dda yng Nghymru oherwydd methiant i ymgysylltu yn effeithiol gydag adrannau cyllid mewn awdurdodau lleol ar y gwaith.

1.3 Er hynny, mae'r adroddiad yn codi nifer o faterion sy'n haeddu ystyriaeth, felly mae'r Pennaeth Cyllid wedi cyd-lynu sylwadau swyddogion perthnasol (gan gynnwys y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr yr Adran Cyllid) mewn ymateb i argymhellion SAC.

1.4 Gosodir holl argymhellion SAC ac ymatebion / gweithrediad Cyngor Gwynedd yn yr atodiad.